Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Cymdeithas Tai United Welsh – J099

Medi 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

## Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78964-139-4
Hawlfraint y Goron 2018

# Proffil

Mae Cymdeithas Tai United Welsh ("United Welsh" neu “y Grŵp”) yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a sefydlwyd yn 1989, ac mae wedi'i chofrestru o dan y Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddi reolau elusennol.

Mae gan United Welsh 5,808 o gartrefi yn ardaloedd 11 o awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda'r mwyafrif ohonynt yng Nghaerffili, Caerdydd a Blaenau Gwent. 819 o gartrefi wedi'u dylunio ar gyfer pobl hŷn. Caiff  877 o dai â chymorth eraill eu rheoli gan United Welsh ac amrywiaeth o bartneriaid cymorth tai, er mwyn diwallu ystod o anghenion gwahanol, gan gynnwys anableddau dysgu, unigolion o bob oed sy'n ddigartref, pobl ifanc sy'n gadael gofal, menywod sy'n dianc rhag cam-drin domestig, y rhai sy'n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau, a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Caiff 236 o'r cartrefi eu darparu drwy opsiynau perchentyaeth cost isel.

Mae gan y Grŵp ddau is-gwmni sy'n darparu gwasanaethau i United Welsh; Celtic Horizons Limited, a sefydlwyd yn 2012, sy'n darparu gwasanaethau rheoli asedau a Harmoni Homes Limited, a sefydlwyd yn 2017, sy'n darparu gwasanaethau datblygu.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2016/17** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 36.9% | 34.3% | dd/g | 21.3% |
| Gwarged / (diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 12.8% | 16.5% | dd/g | 6.5% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 1.7% | 1.8% | dd/g | 2.0% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 87% | 90% | dd/g | 74% |
| Geriad | 66% | 67% | 80% | 61% |
| Sicrwydd llog | 202% | 153% | 105% | 172% |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Grŵp gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi ar hyn o bryd. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Medi 2018

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.